sicrhau bod cyfathrebiadau'n **gweithio i bawb**

# Diweddaru canllawiau Ofcom ar ddiogelwch rhwydweithiau a gwasanaethau

## Crynodeb o'r Ymatebion i'r Ymgynghoriad 2017

**DATGANIAD:**

Dyddiad Cyhoeddi: 18 Rhagfyr 2017

# Gair am y ddogfen hon

Mae'r ddeddfwriaeth sy'n berthnasol i ddarparwyr telegyfathrebiadau yn ei gwneud yn ofynnol iddynt roi mesurau ar waith i ddiogelu cadernid a diogelwch eu rhwydweithiau a'u gwasanaethau. Mae gan Ofcom y pŵer i ymyrryd os nad yw darparwr, yn ein barn ni, yn rhoi'r mesurau priodol ar waith. Ym mis Mai 2011, cyhoeddom ganllawiau yn hysbysu'r darparwyr perthnasol am yr hyn rydym yn disgwyl iddynt ei wneud er mwyn cyflawni eu rhwymedigaethau. Fe wnaethom ddiweddau'r canllawiau yn 2014.

Ym mis Mehefin 2017, penderfynom ei bod yn briodol eu diweddaru ymhellach, ac fe gyhoeddwyd ymgynghoriad gennym yn nodi'r newidiadau roeddem yn eu cynnig. Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r ymatebion a gawsom i'r ymgynghoriad, yn rhoi ein hymateb iddynt ac yn esbonio'r newidiadau rydym wedi penderfynu eu gwneud o ganlyniad i hynny. Rydym hefyd yn cyhoeddi'r canllawiau diwygiedig, sef 'Canllawiau Ofcom ar y gofynion diogelwch yn adran 105A i D o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003', ar y cyd â'r ddogfen hon.

Anfonwyd y rhan fwyaf o'r ymatebion a ddaeth i law gan ddarparwyr telegyfathrebiadau, ond clywsom hefyd gan awdurdod hawliau gwybodaeth y DU. Yn gryno, roedd y darparwyr yn poeni'n bennaf y byddai rhai agweddau ar y canllawiau diwygiedig yn cynyddu'r baich a wynebir ganddynt o safbwynt cydymffurfio. Roedd y rhan fwyaf yn cytuno y byddai rhai diweddariadau yn fuddiol, ond nid oedd pawb yn gytûn fod unrhyw rai o'r awgrymiadau yn ein hymgynghoriad yn gywir, nac ychwaith yn anghywir. At ei gilydd, rydym wedi penderfynu bwrw ymlaen gyda'r newidiadau a gynigiwyd gennym, gydag esboniad ychwanegol neu fân addasiadau mewn rhai achosion.

# Cynnwys

## Adran

1. Cyflwyniad 1

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cyhoeddom ganllawiau ar y rhwymedigaethau diogelwch yn adran 105A i D o Ddeddf Cyfathrebiadau 2003 ym mis Mai 2011. Nod y ddogfen honno oedd rhoi gwybodaeth lefel uchel i ddarparwyr cyfathrebiadau am sut y byddem yn disgwyl iddynt ystyried eu rhwymedigaethau. Yn gryno, roedd yn cwmpasu'r meysydd canlynol:

- gweithdrefnau rheoli risg a mesurau diogelwch sylfaenol;
- gwybodaeth dryloyw i ddefnyddwyr;
- mesurau i gynnal argaeledd gwasanaethau;
- mesurau i ddiogelu rhwydweithiau cydgysylltiedig; ac
- adrodd ar ddigwyddiadau sy'n uwch na'r trothwyon a nodir yn y canllawiau.

1.2 Yn y ddogfen honno, fe wnaethom esbonio ein bod yn disgwyl diwygio ein canllawiau o bryd i'w gilydd. Ar ôl ymgynghori, diweddarwyd y canllawiau yn 2014. Ym mis Mehefin 2017, cyhoeddodd Ofcom ymgynghoriad ynghylch newidiadau pellach i'r canllawiau a gofynnodd am sylwadau ar y diwygiadau arfaethedig.

1.3 Mae'r ddogfen hon yn crynhoi'r prif bwyntiau a wnaed mewn ymateb i'n hymgynghoriad. Mae hefyd yn rhoi ein barn ar yr ymatebion hyn a'n casgliadau ar y newidiadau rydym wedi penderfynu eu gwneud i'r canllawiau. Rydym yn cyhoeddi'r fersiwn diwygiedig o'r canllawiau ar y cyd â'r ddogfen hon.

## Ymatebion

1.4 Cafodd Ofcom ymatebion i'r ymgynghoriad gan:

- BT
- Colt
- O2
- ICO
- KCOM
- Sky
- Three
- Verizon
- 3 ymateb cyfrinachol

1.5 Mae copïau o'r ymatebion nad oeddent yn gyfrinachol ar gael ar ein gwefan yma: https://www.ofcom.org.uk/consultations-and-statements/category-1/review-security-guidance